Sut i Wneud Dijeridŵ o Diwb Cardfwrdd

Mae'r dijeridŵ yn offeryn sy'n dyddio yn ôl tua 1,000 o flynyddoedd ac fe'i datblygwyd gan frodorion gwreiddiol Awstralia. Mae bellach yn offeryn sy'n cael ei ddefnyddio ledled y byd ac mae ganddo sain isel nodweddiadol.

Bydd angen...

- Tiwb cardfwrdd. Po hiraf, gorau oll! Gallech chi ddefnyddio'r tu mewn i rolyn tyweli papur cegin, tiwb postio, neu y tu mewn i haenen lynu neu diwb ffoil alwminiwm.
- Dewisol: paent, pennau, sticeri, creonau, a phob math o bethau eraill y gallwch eu defnyddio i addurno eich dijeridŵ!

Cam Un:

Os ydych chi'n defnyddio tiwb postio, tynnwch unrhyw sticeri o'r tu allan ac unrhyw gapiau plastig yn gyntaf.

Cam Dau (Dewisol):

Addurnwch eich tiwb cardfwrdd! Defnyddiwch baent, pensiliau, sticeri a beth bynnag arall sydd gennych i'w wneud er mwyn sicrhau golwg wych i'ch dijeridŵ!

Cam Tri:

Rydych chi'n barod i chwarae eich dijeridŵ! Rydych yn ei chwarae trwy bwyntio eich dijeridŵ i lawr tuag at y gofod o flaen eich traed, gan ei ddal o flaen eich ceg, a chanu nodiadau isel gwahanol i mewn iddo. Bydd y dijeridŵ yn chwyddleisio (gwneud yn uwch) eich canu isel!

Edrychwch ar y gweithwyr proffesiynol yn ei wneud. Rydym wedi anfon dolen yr wythnos hon at yr arlunydd o Awstralia o dras frodorol, Lewis Burns, yn chwarae rhythmau dijeridŵ traddodiadol. I gael gwybod mwy, cymerwch olwg ar www.didgeproject.com.

https://youtu.be/yG9ZX1FS20A